# Polisi Gwasanaethau Preswyl Prifysgol Abertawe: Profi Dyfeisiau Trydanol a Phrofi Dyfeisiau Cludadwy (PAT)

**Pwrpas:**
Mae'r polisi hwn yn nodi rheolau a chanllawiau defnyddio dyfeisiau trydanol yn llety'r brifysgol. Y nod yw sicrhau diogelwch yr holl fyfyrwyr a chynnal cyfanrwydd system drydanol y Brifysgol.

**Cwmpas:**
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol ac yn rheoli'r defnydd o ddyfeisiau trydanol a ddaw i'r preswylfeydd hyn.

## 1. Cydymffurfiaeth Reoleiddiol:

- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), y rheoleiddiwr annibynnol, yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch y defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol yn y DU. Mae hyn yn cynnwys rhoi canllawiau ar y canlynol:
  - Cyngor ar ddefnyddio dyfeisiau trydanol yn ddiogel.
  - Gofynion ar gyfer profion dyfeisiau cludadwy (PAT).

## 2. Cyfrifoldeb am Ddiogelwch Trydanol:

- Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod dyfais drydanol a ddaw i lety'r brifysgol yn ddiogel yn drydanol ac yn cydweddu â systemau trydanol y DU.
- Y cyflenwad pŵer yn y llety yw 240V, a rhaid i'r holl ddyfeisiau ddefnyddio plygiau 3 phin.

## 3. Cyfarpar Trydanol a Ganiateir:

- Dim ond un aml-addasydd a ganiateir ym mhob ystafell i'w ddefnyddio gyda chyfarpar watedd isel , megis cyfrifiaduron ac argraffwyr.
  (Gweler Atodiad A a B i gael mwy o fanylion).

## 4. Cyfarpar ac Addaswyr o'r tu allan i'r DU:

- Ni ellir defnyddio cyfarpar nac addaswyr cysylltiedig o'r tu allan i'r DU oni bai eu bod wedi'u harchwilio a'u cymeradwyo gan y Brifysgol.

## 5. Profi Dyfeisiau Trydanol:

- Os ydych yn ansicr am addasrwydd unrhyw ddyfais drydanol, cysylltwch â Derbynfa eich Preswylfa. Byddan nhw'n trefnu prawf trydanol os bydd angen.

## 6. Prawf PAT Blynyddol:

- Mae'r Brifysgol yn cynnal profion dyfeisiau cludadwy blynyddol, ac mae'r holl gyfarpar trydanol mewn ardaloedd cymunedol yn cael eu profi am ddiogelwch.

## 7. Gwaredu Eitemau Anniogel neu Lwyth Gormodol:

- Bydd eitemau trydanol sy'n gosod llwyth gormodol ar y system drydanol neu y bernir eu bod yn anniogel gan staff y breswylfa yn cael eu gwaredu o'r llety. Bydd yr eitemau hyn yn cael eu storio tan ddiwedd y flwyddyn academaidd.

### 8. Eitemau Trydanol Gwaharddedig:

- Mae'r eitemau canlynol wedi'u gwahardd rhag dod i lety'r Brifysgol:
    - Addasyddion ciwb (mwy nag un).
      (Gweler Atodiad D am fwy o fanylion).
    - Eitemau trydanol sydd angen addaswyr trydanol tramor i weithio.
    - Gwresogyddion trydanol.
    - Blancedi electronig.
    - Frïwr saim dwfn.
    - Cyfarpar golchi dillad, gan gynnwys peiriannau golchi a sychu dillad.
    - **E-feiciau ac E-sgwteri**

### 9.Gorfodi:

- Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n torri'r polisi hwn yn gorfod gwaredu eitemau trydanol nad ydynt yn cydymffurfio o'i lety. Bydd torri'r polisi hwn yn fynych yn arwain at weithredu pellach yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.

## Canllaw Diogelwch Trydanol Myfyrwyr

### Gofynion Diogelwch Cyffredinol

Cyn defnyddio dyfais drydanol, dylech **wirio'r** ddyfais am y canlynol:

- Gwifrau rhaflog neu blygiau wedi'u difrodi
- Marciau llosg neu arogl anarferol
- Cysylltiadau rhydd neu rannau agored

**Defnydd sych yn unig**
Peidiwch byth â defnyddio eitemau trydanol gyda dwylo gwlyb neu ger dŵr.
**Defnydd Cywir**
Defnyddiwch ddyfeisiau at eu dibenion bwriedig a dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd.
**Ceisiwch osgoi gorlwytho**
Peidiwch â phlygio gormod o ddyfeisiau mewn un soced neu wifren estyn.
**Dim cysylltu gormod o gadwyni**
Peidiwch â chysylltu gormod o wifrau estyn (a elwir yn "daisy chaining" yn Saesneg).
Rhaid i ddyfeisiau cegin megis **tegell**, **tostiwr** ac **oergelloedd bach** gael eu plygio i mewn **yn uniongyrchol i socedi yn y wal,** nid estyniadau**.**

## Ynysu Dyfeisiau Diffygiol neu Beryglus

Os ydych yn amau bod dyfais yn anniogel:

1. **Peidiwch â'i defnyddio**
2. **Diffoddwch y pŵer**
    - Diffoddwch y ddyfais.
    - Tynnwch y plwg o'r soced os yw hi'n ddiogel i wneud hynny.
3. **Labelu'n glir**
    - Rhowch arwydd neu label arni gyda "Peidiwch â defnyddio - diffygiol".
4. **Rhowch wybod amdani**
    - Rhowch wybod i'r Gwasanaethau Preswyl
    - Rhowch fanylion beth sydd wedi digwydd a beth welsoch chi.
5. **Peidiwch â cheisio ei thrwsio**
    - Dim ond trydanwyr cymwys ddylai edrych neu drwsio'r ddyfais.

⚠ **Sylwer:** Ni fydd y Tîm Llety'n trwsio nac yn amnewid **eitemau trydanol personol** y mae myfyrwyr yn dod â nhw i'r Brifysgol.

**Nodiadau Diogelwch Ychwanegol**

- **E-feiciau ac E-sgwteri**
  **Gwaherddir gwefru e-feiciau neu e-sgwteri** oherwydd y perygl tân sy'n gysylltiedig â batris ionau lithiwm.
- **Cyfarpar Rhyngwladol**
  Rhaid i fyfyrwyr sy'n dod ag eitemau trydanol neu wefrwyr o dramor sicrhau eu bod yn bodoli **safonau diogelwch trydanol y DU**. Gall cyfarpar anniogel neu anghymarus gael eu hatafaelu neu eu gwahardd.
- Gall cyfarpar anniogel neu anghymarus gael eu hatafaelu. Bydd eitemau sy'n cael eu symud am resymau diogelwch yn cael eu storio'n ddiogel a'u dychwelyd unwaith y byddant yn ddiogel neu ar ddiwedd y denantiaeth **(ac eithrio eitemau gwaharddedig, ni fyddant yn cael eu dychwelyd)**.

**Atodiadau:**

- **Atodiad A a B** - canllawiau defnyddio aml-addasydd
- **Atodiad C** - Offer An-gael yn y DU
- **Atodiad D** - addaswyr ciwb gwaharddedig

**Adolygu'r Polisi:**
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu pan fydd angen i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â rheoliadau diogelwch a safonau'r Brifysgol.

**Cymeradwyo a Gweithredu:**
Mae'r polisi hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Wasanaethau Preswyl y Brifysgol a rhaid i'r holl fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol lynu wrtho.

**Gwybodaeth Gyswllt**: Am unrhyw gwestiynau neu eglurhad o ran y polisi hwn, gofynnwch yn Nerbynfa eich Preswylfa neu cysylltwch â'r tîm Gwasanaethau Preswyl.

---

Nod y polisi hwn yw cynnal amgylchedd byw diogel i'r holl breswylwyr drwy sicrhau diogelwch trydanol a chydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol.

**Appendix A**



**Appendix B**



**Appendix C**



**Appendix D**

